# Ymchwiliad y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig i Arallgyfeirio Economaidd Gwledig

## Ymateb ar Ran Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru Eryri, Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog

### A. MARCHNATA AC YCHWANEGU GWERTH

*Sut gall y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill gynorthwyo i farchnata cefn gwlad Cymru a'i gynnyrch? Beth arall gellir ei wneud i helpu i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau adnabyddus ar ôl codi eu gwerth yn sylweddol, brandio ynghyd â marchnata ar y cyd ag arbenigol?*

---

**Ymateb, gyda chyfeiriad penodol at gynnyrch amaethyddol cynradd**

**Cefn Gwlad Cymru – Beth ydyw a beth yw ei gynnyrch?**

Cyn y gellid ystyried marchnata ac ychwanegu gwerth, mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn credu bod angen asesiad gwir a gonest o Gefn Gwlad Cymru a'r hyn a ddisgwylir ganddo a'i gynnyrch, ynghyd â chryfderau a nodweddion yr ardal. Yn fyr, mae'r hinsawdd gwlyb gweddol fwyn wedi dylanwadu'n fawr ar Gefn Gwlad Cymru, ac ar ei gymeriad a'i gynnyrch, gan ei fod yn golygu y gellir tyfu digonedd o laswellt rhad sy'n sail i holl gynnyrch amaethyddol cynradd yr ardal - sef cig, llaeth a gwlân. Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol o'r farn y dylai unrhyw strategaethau ganolbwyntio ar y cryfderau hyn. O edrych yn benodol ar y Parciau Cenedlaethol, sydd oddeutu 20% o arwynebedd Cymru, mae'r cynnyrch cynradd yn deillio o systemau sy'n defnyddio dolydd sydd wedi'u lled-wella neu heb eu gwella, ac sydd hefyd o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol o ran tirwedd a/neu wyddoniaeth. Maent yn ardaloedd sy'n agos at galon y cyhoedd ac ystyrir eu bod â chryn werth amgylcheddol. Mae ffactorau amgylcheddol yn rhan o gynhyrchiant cynnyrch cynradd o Barciau Cenedlaethol; fodd bynnag, nid yw'r farchnad yn dangos y gwahaniaeth hyn o gwbl er y gallai roi cyfran uwch o'r farchnad i gynhyrchwyr cynradd ac ychwanegu gwerth i'r cynnyrch oblegid eu gwerthoedd amgylcheddol.

Mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn credu y dylai gwaith marchnata ac ychwanegu gwerth fod yn gyson â phrif amcanion y Parciau ynghyd â hybu eu dibenion.

**Cynnyrch Adnabyddus**

Mae’r Parciau Cenedlaethol a’u cynnyrch yn adnabyddus iawn. Mae enw Eryri yn gyfarwydd iawn i’r cyhoedd yn ôl Arolwg y Bwrdd Croeso. Er enghraifft, mae Cig Oen Mynydd Cymreig yn gynnyrch cyfarwydd iawn, ond byddai yna ragor o gyfleoedd marchnata drwy gysylltu cynnyrch ag enw Parc Cenedlaethol, na chydag enw’r Mynyddoedd Cambria (Pumlumon a’r cyffiniau) er enghraifft. Er mwyn bod yn ‘arbenigol’ rhaid iddo gael ei fesur. Os bwriedir sefydlu cynnyrch arbenigol yn seiliedig ar nodweddion amgylcheddol yr ardal, rhaid gosod safonau sy’n berthnasol i’r ardal ac yn amlwg i’r cwsmer. Mae defnyddio enw "Eryri", "Bannau Brycheiniog" neu "Arfordir Penfro" i farchnata cynnyrch cynradd yn allweddol, ond rhaid i’r defnydd hwnnw gyfeirio at yr ardal ddaearyddol benodol honno a’i gwerthoedd amgylcheddol. Yn anffodus, ceir enghreifftiau o gynnyrch cynradd yn cael eu marchnata heb unrhyw gysylltiad â’r ardal ei hun, sydd yn golygu bod cynhyrchwyr yr ardaloedd hynny’n colli cyfleoedd i farchnata ac ychwanegu gwerth.

Nid yw pob cynhyrchwr yn sylweddoli y gellid diffinio eu cynnyrch fel "adnabyddus" oherwydd agweddau marchnadoedd traddodiadol, ac nid yw’r sectorau sy’n uwch yn y gadwyn yn annog gweithredu o’r fath. Er enghraifft, mae sectorau’r farchnad gig draddodiadol yn ystyried bod cig oen mynydd yn nwydd trafferthus i’w gymharu â chig oen yr iseldir.

Barn Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol yw y dylai pob asiantaeth warchod cynnyrch rhanbarthol nodweddiadol yn debyg i’r modd y mae’r Cynulliad yn bwriadu gwarchod "Cig Oen Cymreig". At hyn, byddwn yn dadlau y dylid cyflwyno meini prawf ystyrlon a mesuradwy i’r systemau cynhyrchu.

Mae yna enghreifftiau ar y cyfandir o gyfleoedd marchnata yn seiliedig ar werthoedd amgylchedd cynnyrch o dir gwarchodedig - mae gennym wersi i’w dysgu.

**Brandio**

Mae Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol yn cefnogi gwaith yr Arolygiaeth Amaeth-Bwyd wrth geisio datblygu delwedd brandio Cymreig. Fodd bynnag, hoffem weld datganiad polisi gan yr Arolygiaeth ar faterion yn ymwneud â chyfleoedd brandio a nwyddau arbenigol, yn enwedig yn ardaloedd gwarchodedig Cymru (Parciau Cenedlaethol). Mae’r tri Pharc yng Nghymru yn awyddus i gyfrannu’n helaeth at hyn, ar yr amod y gellid cyflwyno safonau amgylcheddol ystyrlon.

**Ychwanegu Gwerth**

Mae Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol o’r farn bod yna gryn botensial i ychwanegu gwerth at gynnyrch cynradd drwy osod safonau amgylcheddol ystyrlon arnynt. Credwn bod yna gwsmeriaid sy’n barod i chwilio am gynnyrch o safon amgylcheddol naturiol uchel, ond rhaid i’r cyfle fodoli o fewn y farchnad yn gyntaf.

Os bydd prosesu yn rhan o ychwanegu gwerth, dylai hyn ddigwydd o fewn ardal ddaearyddol y cynnyrch cynradd - byddai hyn hefyd yn ychwanegu at weithgaredd economaidd-gymdeithasol yr ardal

honno.

**Marchnata ar y Cyd**

Dyma un o’r gwendidau sy’n wynebu Cefn Gwlad Cymru, yn arbennig y diwydiant amaeth. Mae Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol yn credu fod gan yr Arolygiaeth Amaeth-Bwyd ran strategol i’w chwarae, yn enwedig gyda chynnyrch adnabyddus ac arbenigol. Mae gan Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol ran bwysig yn lleol i’w chwarae. Mae yna nifer o faterion sy’n cael eu penderfynu ar ben y gadwyn sy’n gallu llesteirio’r ymdrech i gydweithredu – megis cyfleusterau lladd a phrosesu, diffyg sgiliau, diffyg buddsoddiad cyfalaf a mynediad i farchnadoedd.

Eto gallwn edrych dramor am gynlluniau i’w hefelychu yng nghefn gwlad Cymru. O ran tir gwarchodedig, mae holl Barciau Rhanbarthol Ffrainc yn marchnata eu "cynnyrch adnabyddus" o dan un arwyddlun cyffredin.

**B. DATBLYGU CYMUNEDOL**

> *Sut y gellir gwella darpariaeth gwasanaethau a chyfleoedd gwaith drwy fentrau datblygu cymunedau? Sut gall y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill gynorthwyo a hybu datblygiadau o’r fath a gwneud yn sir bod yr holl fuddiannau economaidd a gyfud yn eu sgîl yn cael eu defnyddio?*

---

Yn ogystal â’u dyletswydd i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau a hyrwyddo cyfleoedd i’r cyhoedd eu deall a’u mwynhau, mae’n rhaid i Awdurdodau’r Parciau Cenedlaethol feithrin ffyniant economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol y Parciau, ar y cyd ag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill.

Mae’r Parciau Cenedlaethol yn ceisio datblygu cryfderau presennol yr economi a’r cymunedau lleol mewn modd amgylcheddol dderbyniol fel bo’r buddiannau cymdeithasol ac economaidd yn aros yn lleol yn hytrach na chael eu gwasgaru i ardaloedd pell i ffwrdd.

Hwy hefyd yw’r awdurdodau cynllunio ar gyfer holl ardal y Parc, ac felly mae ganddynt rôl a chyfrifoldebau sylweddol o ran ceisiadau datblygu.

Mae gan y Parciau brofiad a diddordeb mewn gweithio â chymunedau lleol mewn modd cynaladwy. Mae’r Cynulliad eisoes wedi cydnabod hyn, drwy neilltuo arian ar eu cyfer mewn Cronfa Datblygu’r Amglchedd newydd (CDA/CAE), fel ardaloedd lle y gellir arbrofi gyda datblygu’r arferion gorau o ran cynaladwyedd.

Mae’r adroddiad hwn yn nodi rhai o’r sylwadau corfforaethol a wnaed ar faterion allweddol ar ran y tri Pharc yng Nghymru. Bwriad yr adroddiad yw amlinellu’r ffactorau fydd yn cynorthwyo’r ddarpariaeth leol o wasanaethau a chyfleoedd gwaith yn yr economi wledig, gan ystyried y pum pwynt isod.

- Diwallu anghenion lleol yn lleol
- Datblygu medrau a sgiliau cymunedau
- Cydnabod a chodi gwerth cynnyrch lleol
- Newid Deddfwriaethol
- Adnoddau ac ymrwymiad parhaus

Yn Atodiad A ceir enghreifftiau o arferion da o ran datblygu cymunedau gwledig yn y tri Pharc yng Nghymru.

Mae’n rhaid archwilio’r hyn a allai rwystro datblygiadau cyn symud ymlaen i ystyried atebion posibl.

**Rhwystrau i ddatblygu**

- Diwallu anghenion lleol yn lleol - Ers ugain mlynedd, bu difaterwch yn agwedd y cyhoedd a dibyniaeth ar y wlad yn amlwg iawn mewn cymunedau gwledig (yn ogystal â threfol) a bydd angen amser, ymdrech ac adnoddau i newid y tueddiadau hyn.

  Dylid annog pobl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, gan ofyn am eu barn a’u hymateb, a’u rhoi ar waith. Dim ond y pryd hynny y gellir diwallu anghenion lleol yn lleol.
- Datblygu medrau a sgiliau cymunedau - Ni allwn ddisgwyl i bobl fentro heb feddu ar y sgiliau angenrheidiol a’r hyder i wneud hynny. Heb hyfforddiant priodol, fydd yn darparu sgiliau newydd ac yn magu hyder unigolion a chymunedau, ni ellir goresgyn y gwir broblemau sy’n wynebu’r economi wledig. Byddai hyfforddiant yn gwella cyfleoedd gwaith y bobl leol, ac yn eu hannog i arfer eu sgiliau er budd eu hardal leol.

- Cydnabod a chodi gwerth cynnyrch lleol - Mae’n rhaid i gymunedau gwledig adnabod potensial y cynnyrch a’r gwasanaethau yn eu hardal. Anwybyddir neu diystyrir y cynnyrch hwn yn rhy aml o’r hanner, ac o’i gydnabod gallai potensial ei ddatblygu fod yn anferth, e.e. twristiaeth werdd neu ddiwylliannol; cynnyrch bwyd lleol o safon uchel; cynhyrchu cynnyrch cynradd.

- Newid Deddfwriaethol - Mewn rhai achosion, mae deddfwriaeth yn tynnu’n groes i ddatblygiad yr economi gwledig. Er enghraifft, mae codi gwerth cynnyrch lleol a thargedu a gwerthu i farchnad leol o werth economaidd sylweddol ond, ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth yn gweithio’n erbyn hyrwyddo prynu lleol.

**Sut y gellir gwella’r sefyllfa**

- Diwallu anghenion lleol yn lleol - mae’n rhaid goresgyn difaterwch y cyhoedd. Gellir gwneud hyn drwy roi cyfle i’r cyhoedd a’r cymunedau asesu eu hanghenion eu hunain, pa wasanaethau sydd eu hangen, a pha gyfleoedd gwaith sydd ar gael. Gellir defnyddio nifer o dechnegau fyddai’n cynnwys y gymuned yn y broses e.e. gweledigaeth gymunedol, cynllunio ar gyfer y dyfodol, cynllunio go iawn ayb, er mwyn diwallu anghenion lleol yn lleol. Gall Swyddogion y Parc Cenedlaethol chwarae rhan allweddol drwy annog arferion fel hyn ar bob lefel.

- Datblygu medrau a sgiliau cymunedau - Nid oes gan ganran uchel o gymunedau y sgiliau priodol i ddatblygu project, ac nid oes gan lawer yr hyder i wneud hynny. Mae ar gymunedau angen cefnogaeth swyddogion a sefydliadau profiadol i ‘gydio’n eu llaw’, eu cynghori a’u cefnogi, yn enwedig ar gychwyn project newydd.

  Gellir trosglwyddo’r sgiliau hyn, a dylid sicrhau bod gan y trigolion lleol ffordd o gael hyfforddiant, a’u bod yn cael cyfle i wneud pethau dros eu hunain. Gellir gwella’r ddarpariaeth o wasanaethau a chyfleoedd gwaith drwy gryfhau cymunedau, adeiladu partneriaethau a chwilio am atebion cynaladwy.

  Yn ogystal â meddu ar brofiad o ddatblygu cymunedol a gwella medrau, mae gan y Parciau Cenedlaethol rywfaint o brofiad o ddarparu hyfforddiant. Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi cael profiad da hyd yn hyn gyda’r Fargen Newydd ac mae posibilrwydd y gellir cynnig gwaith ymarferol i bobl leol yn seiliedig ar y modd y rheolir adnoddau naturiol y Parc Cenedlaethol ac ym maes hamdden.

- Cydnabod a chodi gwerth cynnyrch lleol - Mae’n rhaid i gymunedau gwledig sylweddoli potensial yr hyn sydd ganddynt, boed drwy hyrwyddo/brandio a chodi gwerth cynnyrch lleol neu drwy ddefnyddio’r adnoddau cynradd sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw bob tro’n hawdd cynnig ffyrdd o ateb problemau yn lleol, ac mae’n bwysig iawn bod pobl yn medru dysgu arferion da o rannau eraill o’r DG ac o bedwar ban byd.

  Gellir dysgu sgiliau mentro drwy ddod ag *entrepreneurs* lleol, pobl leol a syniadau o leoedd eraill ynghyd. Gall hyn helpu i sbarduno syniadau, magu hyder a datblygu projectau newydd a dyfeisgar.

- Newidiadau Deddfwriaethol - Dylai’r Cynulliad lobïo i newid deddfwriaeth fel y rhoddir ystyriaeth i brynu’n lleol (yn ogystal â phrynu amgylcheddol) wrth brynu ar gyfer y sector gyhoeddus, yn ogystal ag ystyriaethau gwerth am arian ac addasrwydd at bwrpas.

- Adnoddau ac ymrwymiad parhaus - Mae datblygu cymunedol yn waith drud ac ni fydd yn digwydd dros nos. Er mwyn sbarduno newid yng nghymunedau cefn gwlad, mae’n rhaid sylweddoli bod angen adnoddau ac ymrwymiad ar bob lefel. Os bydd cymuned mewn Parc Cenedlaethol yn gweld yr angen, dylai gael yr adnoddau (sef cefnogaeth a nawdd) i ddatblygu a chynnal projectau yn unol â phwrpasau a pholisiau’r Parc Cenedlaethol. Bydd hyn yn hybu datblygiadau eraill yn ogystal â diwallu’r angen.

Dylid monitro yr holl brojectau'n effeithiol. Er enghraifft mae 'mesurydd canrannau' y Sefydliad Datblygu Cymunedol yn cael consensws ar ddangosyddion ansawdd bywyd mewn cymunedau ac yn eu mesur.

---

**Atodiad A**

**Enghreifftiau o arferion da sy'n cael eu harddel yn y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru:**

- **Diwallu anghenion lleol yn lleol**

  Mae oddeutu 900 o bobl yn byw ym mhentref Trawsfynydd ynghanol Parc Cenedlaethol Eryri. Yn ddiweddar, sefydlwyd Traws-newid, cwmni cydweithredol cymunedol, ar ôl proses asesu'r gymuned. Daeth anghenion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol i'r amlwg ynghyd â dymuniadau trigolion y pentref. Menter sy'n cael ei rhedeg gan y gymuned yw'r fenter hon, ac fe'i sefydlwyd er mwyn datblygu projectau cynaladwy drwy ddefnyddio cynnyrch lleol, e.e. y llyn a'r dreftadaeth ddiwylliannol. Mae'r Parc Cenedlaethol yn annog ac yn cefnogi mentrau cymunedol o'r fath, ac yn defnyddio Trawsfynydd fel model ar gyfer datblygiadau eraill yn y dyfodol yn y Parc.

  Mae Bannau Brycheiniog wedi sefydlu Fforwm o dros 100 o aelodau unigol a sefydliadol, o blith y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat. Bydd yn cyfarfod bob tri mis i rannu syniadau, brwdfrydedd ac arbenigedd, ac i sefydlu a chynllunio projectau ansawdd bywyd ar y cyd.

  Mae Arfordir Penfro wedi gweithio'n glòs gyda Grwpiau cymunedol a Chynghorau Cymuned lleol, yn trefnu seminarau, cyhoeddi papurau newydd arbennig ('Post y Parc' a 'Parc Bethe'), creu cyfleoedd i gynnwys pobl a thrafod a hybu gwell ymwybyddiaeth a pherchnogaeth yn y gymuned.

- **Datblygu medrau a sgiliau cymunedau**

  Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynorthwyo Ymddiriedolaeth leol newydd i ehangu cyfleusterau addysg anffurfiol ar fferm leol. Bwriad hyn yw creu rhaglenni addysgol ar gyfer dosbarthiadau dan do y mae galw mawr amdanynt o du ysgolion gwledig yr ardal a grwpiau eraill, i ddysgu am amaeth, bwyd a chynaladwyedd.

  Drwy gronfa CAE, mae Eryri wedi cefnogi cyfres o seminarau a gynhelir gan y cyngor gwirfoddol lleol ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol. Bwriad y seminarau hyn yw codi ymwybyddiaeth am egwyddorion cynaladwyedd a chynnig gwybodaeth a sgiliau ar

faterion ariannu, TG, effeithlonrwydd ynni, trafnidiaeth gymunedol ayb.

Defnyddiodd Parc Bannau Brycheiniog ‘ymarferion cynllunio go iawn’ i ddatblygu eu cynllun lleol, a hynny drwy annog consensws a rhoi cyfle i’r cymunedau lleol gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Cynhaliwyd 30 o ymarferion cynllunio go iawn mewn mannau oedd yn gyfleus i holl gymunedau’r Parc.

Trefnodd Arfordir Pnefro weithdy ar gyfer gwrthwynebwyr unigol a grwpiau cymunedol oedd am herio Cynllun Lleol drafft yr Awdurdod. Bwriad hyn oedd rhoi iddynt y sgiliau a’r cyngor angenrheidiol i allu dilyn y broses Ymchwilio yn well, er mwyn i’r gymuned wneud cyfraniad arwyddocaol i’r ymgynghoriad cyhoeddus pwysig hwn.

- **Cydnabod a chodi gwerth cynnyrch lleol**

Ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, cydweithiodd swyddog Leader II â chynhyrchwyr lleol i sefydlu Marchnad Ffermwyr lwyddiannus iawn, ac i sefydlu pwyllgor llywio. Cynorthwywyd y fenter wedi hyn i gael ffynonellau nawdd i gyflogi Cydlynydd i drefnu Marchnadoedd ac ehangu’r gwasanaeth a’r buddiannau economaidd i’r cynhyrchwyr.

Mae Eryri, drwy gyfrwng Cronfa CAE wedi cefnogi ‘Cynnyrch Eryri’, cwmni cydweithredol o ffermwyr lleol, drwy roi arian iddynt gyflogi Swyddog Marchnata. Trwy godi gwerth y cynnyrch, bydd y swyddog hwn yn offeryn i hyrwyddo cig oen Cymru ymhlith manwerthwyr lleol a chynulleidfa ehangach.

Mae Arfordir Penfro wedi cefnogi Menter Bwyd Lleol y Cyngor Sir, ac mae wedi gweithio’n glòs gyda’r Swyddog Project i godi ymwybyddiaeth am ddigwyddiadau ac annog rhagor i gymryd rhan ynddynt, trefnu cystadlaethau a chefnogi cynhyrchwyr fel rhan o ymgyrch ar y cyd.

- **Adnoddau ac ymrwymiad parhaus**

Drwy gyfrwng Cronfa Datblygu’r Amgylchedd, mae Parciau Cenedlaethol Cymru wedi cael cyfle i hyrwyddo a chefnogi projectau mentrus a fydd yn gwella ansawdd bywyd yn y cymunedau lleol. Disgwylir y bydd hyn yn arwain at:

- Bartneriaethau cymunedol cryfion sy’n hunain-gynhaliol ymhell wedi bodolaeth y Gronfa,
- Mwy o hyder ar lefel lleol,
- Dealltwriaeth well o’r berthynas rhwng datblygiad cymunedol a’r economi lleol a’r amgylchedd,
- Defnyddio rhagor o adnoddau lleol er mwyn cynyddu’r elw lleol, boed yn rhai

corfforol, neu’r bobl leol eu hunain.

- Projectau da fydd yn esiamplau o arferion da er mwyn i eraill ddysgu oddi wrthynt.

Drwy gyfrwng y rhaglen Adeiladu Cymunedau Cynaladwy, mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro’n ceisio paratoi ar gyfer datblygiadau sy’n debygol o ddigwydd yn Sir Benfro yn y dyfodol drwy baratoi Cynllun Datblygu Unedol ar y cyd â Chyngor Sir Benfro. Er bod y rhan fwyaf o’r datblygiadau yn cael eu canolbwyntio mewn trefi mawrion, sylweddolir hefyd bod angen rhywfaint o dwf ar ardaloedd cefn gwlad er mwyn cynnal a gwella’r gwasanaethau a’r cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli. Trwy grwpio nifer o dreflannau a phentrefi gyda’i gilydd, bydd amrediad y cyfleusterau’n ddigon i ddiwallu anghenion y gymuned. Gobeithir y bydd caniatáu lefel briodol o ddatblygu yn annog cynhyrchwyr gwasanaethau lleol i gynnal neu wella’r gwasanaeth a gynigir ganddynt.